Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 17.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Gofynion a rheoliadau newydd i fusnesau

Yn dilyn ymddangosiad yr amrywiad Omicron o COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi symud i adolygiadau wythnosol o reoliadau Coronafeirws. Roedd cyhoeddiad heddiw yn cynnwys y gofynion ychwanegol canlynol ar gyfer busnesau:

- Bellach mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i ganiatáu i'w gweithwyr weithio gartref os yn bosibl ac mae'n ofynnol i weithwyr wneud hynny lle bo hynny'n ymarferol

O 27 Rhagfyr 2021:

- Bydd set newydd o fesurau rhesymol ar gyfer busnesau a gwasanaethau, gan gynnwys rheol newydd ar gadw pellter cymdeithasol o 2m. Bydd angen i siopau, busnesau a gweithleoedd wneud newidiadau, gan gynnwys mesurau ychwanegol, megis systemau unffordd a rhwystrau corfforol

- Bydd rhaid i glybiau nos gau

Bydd cefnogaeth ariannol o hyd at £60m ar gael i fusnesau y mae'r cyfyngiadau newydd hyn yn effeithio'n sylweddol arnynt. Nid oes unrhyw wybodaeth bellach ar gael ar hyn o bryd – byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth wrth iddo ddod ar gael, trwy https://twitter.com/BusnesGwynedd a'r Bwletin Busnes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bawb gael eu brechu, cymryd Profion Llif Unffordd cyn mynd allan neu ymweld â phobl, cyfarfod yn yr awyr agored yn hytrach na dan do, gadael saib rhwng cymdeithasu a chynnal pellter cymdeithasol, gwisgo masg wyneb a hylendid dwylo da.

I ddarllen y cyhoeddiad, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-reoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-13

Mae gwybodaeth am lle mae Profion Llif Unffordd ar gael ar:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Coronafeirws/Prawf-Covid-19.aspx

## COVID-19: Brechu

Dros yr wythnos nesaf bydd BIPBC yn cynyddu eu cyfradd brechu fel y gallant sicrhau bod pigiadau atgyfnerthu ar gael i'r holl oedolion cymwys yng Ngogledd Cymru erbyn 31 Rhagfyr. Yn fuan, bydd modd i bobl nad ydynt wedi cael gwahoddiad eto ar gyfer pigiad atgyfnerthu wneud hynny ar-lein neu fynychu clinig galw heibio. Edrychwch ar wefan BIPBC ar:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/brechlyn-covid-19/y-diweddaraf-ar-frechlynnau/

Am y diweddaraf am glinigau galw heibio, cadwch lygad ar:

https://twitter.com/betsicadwaladr

https://twitter.com/CyngorGwynedd

https://www.facebook.com/CyngorGwyneddCouncil

Mae galw ar gyflogwyr i ganiatáu i staff gymryd amser i ffwrdd i fynd i apwyntiadau brechu rhag COVID-19.

# CYFLE: Gadewch i ni roi hwb i wario'n lleol efo #NadoligLlawenLleol

Yng ngoleuni'r uchod, mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu pecyn adnoddau o negeseuon ar gyfer y cyfryngau, fideos, Gifs a logo i annog pobl leol ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Mae'r asedau yma ar gael i'w defnyddio ar eich gwefannau neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, etc., a gellir eu lawrlwytho wrth fynd i:

https://bit.ly/3dVnF0W

Gallwch hefyd helpu i ledaenu'r gair trwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook
  https://bit.ly/PrynuLleolGwyneddBuyLocal

- Twitter
  https://bit.ly/twitterprynulleolgwynedd

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleolgwynedd/

Bydd ymgyrch ehangach Prynu Lleol y gaeaf yn rhedeg tan y Pasg. I gymryd rhan, cysylltwch â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru